



**PARATOI ARGYFER GWAITH**

**CREU DYFODOL LLWYDDIANNUS** ➤

Cynllun y Sesiwn



Prince's Trust

**START  
SOMETHING**

# CIPOLWGW

Bydd y sesiwn yma'n annog y dysgwyr i ymchwilio i yrfaeodd sy'n tanio eu diddordeb, ac i ystyried manteision ac anfanteision y gyrfaeodd. Bydd hefyd yn eu helpu i ddeall y gwahanol adnoddau maen nhw'n gallu eu defnyddio i chwilio am swyddi a chyfleoedd hyfforddi. Cofiwch y bydd angen mynediad i'r rhyngwrwyd ar gyfer y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn y sesiwn yma. Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngwrwyd, byddwch chi'n dal yn gallu cyflwyno rhai o'r gweithgareddau ac annog y dysgwyr i wneud rhagor o ymchwil y tu allan i'r dosbarth.



## CYFLEOEDD LLYTHRENNEDD, IAITH A

### RHIFEDD

- ✓ Ymarfer gwahanol strategaethau darllen i ddod o hyd i wybodaeth benodol ar dudalennau ar y we
- ✓ Cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp anffurfiol
- ✓ Sillafu geiriau allweddol yn gywir
- ✓ Crynhoi gwybodaeth allweddol a'i chyflwyno ar boster



## CYFLEOEDD I GAEL CYMWESTERAU

- ✓ Cynllunio Gyrfa – Deiliant Dysgu: Gallu adnabod swyddi neu gyfleoedd hyfforddi addas

# DEILLIANNAU DYSGU

- ✓ Deall ble i fynd i gael arweiniad a chyngor ar yrfaeodd
- ✓ Dod o hyd i yrfa/gyrfaeodd sy'n gysylltiedig â diddordebau'r dysgwyr
- ✓ Nodi'r elfennau allweddol i ganolbwyntio arnyn nhw mewn disgrifiad swydd

# GWEITHGAREDDAU

GWEITHGAREDDAU	AMSER	TUDALEN
<u>Gair i gyflwyno a thorri'r garw: ystyried fy niddordebau</u>	15-20 munud	<u>03</u>
<u>Fy opsiynau</u>	30 munud	<u>04</u>
<u>Dod o hyd i hyfforddiant a llwybrau at y gyrfaeodd o'u dewis</u>	20 munud	<u>05</u>
<u>Cael cyngor ac ymchwilio i gyfleoedd</u>	20 munud	<u>08</u>
<u>Manteision ac anfanteision y gyrfaeodd o'u dewis</u>	20 munud	<u>10</u>
<u>Straeon am yrfaeodd</u>	20 munud	<u>11</u>
<u>Dod o hyd i gyfleoedd</u>	20 munud	<u>13</u>
<u>Fy nghynllun gweithredu</u>	20 munud	<u>14</u>

# GAIR I GYFLWYNO A THORRI'R GARW: YSTYRIED FY NIDDORDEBAU

Bydd y gweithgaredd byr yma i dorri'r garw yn annog y bobl ifanc i ymchwilio i bobl a sefydliadau sy'n gysylltiedig â'u diddordebau.



## AMSER

15-20 munud



## DEUNYDDIAU

- ✓ Cyfrifiaduron â mynediad i'r rhyngwrwyd

## CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Gofynnwch i'r holl ddysgwyr ddewis rhywbeth y mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddo, a gwneud rhywfaint o ymchwil ar-lein i ddod o hyd i bobl neu sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r diddordeb yma. Bydd angen iddyn nhw wneud nodyn o unrhyw syniadau neu agweddau newydd maen nhw wedi'u dysgu ynghylch y maes o'u dewis (ee, os oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn ffotograffiaeth ddigidol, dylent ddilyn ffotograffwyr allweddol sy'n rhoi manylion am eu techneg – fel fframio neu oleuo – yn y capsïynau).
2. Dylech eu hannog i wneud rhagor o waith ymchwil os oes amser: Sut roedd y bobl yma wedi cychwyn ar eu gyrfaoedd? Sut maen nhw wedi llwyddo? Dylai'r dysgwyr gasglu tri syniad ar gyfer y bobl maen nhw wedi dewis ymchwilio iddyn nhw, a chyflwyno'r hyn maen nhw'n ei ganfod i weddill y grŵp. Ydyn nhw'n dal eisiau dilyn yr yrfa honno, ar sail yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu? Oes angen iddyn nhw wneud rhagor o waith ymchwil er mwyn penderfynu?

### GWEITHGAREDD YMESTYNNOL

Edrychwch ar enghreifftiau gwahanol ac amrywiol o entrepreneuriaid enwog, gan gynnwys pobl ifanc ysbrydoledig y mae Prince's Trust wedi'u helpu i lwyddo.

Yn benodol, gallech edrych ar stori Kamil, entrepreneur ifanc sy'n byw ym Manceinion Fwyaf:

Roedd Kamil, 29 oed, o Walkden ym Manceinion Fwyaf, yn ei chael yn fwy ac yn fwy anodd rheoli ei orbryder cymdeithasol a'i iselder yn ystod y pandemig. Cafodd ei annog gan Prince's Trust i ddilyn cwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac ers hynny mae wedi gallu gofalu'n well am ei iechyd meddwl, yn ogystal ag edrych tua'r dyfodol. Mae'n awr yn ystyried agor busnes canhwyllau sy'n dathlu diwylliant lleol Manceinion, ac yn helpu pobl i ymlacio ac ymdawelu yn ystod y cyfnod hectig yma.



Prince's Trust

START  
SOMETHING

# FY OPSIYNAU

Yn y gweithgaredd cyntaf yma, bydd y dysgwyr yn dod o hyd i opsiynau gyrfa sy'n berthnasol i'w diddordebau.



## AMSER

30 munud



## DEUNYDDIAU

- ✓ Cyfrifiaduron sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd (Bydd mynd ar y rhyngwrwyd yn galluogi'r dysgwyr i wneud rhagor o ymchwil am yr opsiynau maen nhw wedi'u dewis. Mae'n dal yn bosibl gwneud y gweithgaredd os nad oes ganddyn nhw fynediad i'r rhyngwrwyd.)



## TAFLEN WAITH

- ✓ Gweithgaredd 1: Taflen waith Fy opsiynau



## CYFLEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Enghreifftiau o opsiynau gyrfa sy'n berthnasol i sgiliau a diddordebau

# CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Esboniwch i'r dysgwyr eu bod yn mynd i ddod o hyd i opsiwn neu opsiynau gyrfa sy'n berthnasol i'r diddordebau maen nhw wedi'u hystyried yn y gweithgaredd cyntaf.
2. Dechreuwch drwy drafod, rhestru neu fapio rhai o'r pethau y mae gan y dysgwyr ddiddordeb ynddyn nhw – gall y dysgwyr adeiladu ar yr hyn roedden nhw wedi'i ystyried yn y gweithgaredd cyntaf. Os oes angen anogaeth ar y dysgwyr, gofynnwch iddyn nhw feddwl am beth maen nhw'n ei wneud ar benwythnosau, a'u hatgoffa y gallai gyrfa fod yn gysylltiedig ag unrhyw ddiddordeb. Er enghraifft, os ydyn nhw'n hoffi seiclo, efallai y byddan nhw eisiau trwsio beiciau, gweithio mewn siop offer awyr agored, neu hyd yn oed bod yn hyfforddwr gweithgareddau awyr agored a mynd â phobl eraill i feicio mynydd!
3. Ar ôl i'r dysgwyr greu rhestr hirach o'u diddordebau yn yr ysgol neu'r tu allan i'r ysgol, esboniwch y byddan nhw'n awr yn meddwl am yrfaedd sy'n gysylltiedig â'r diddordebau hynny. I'w helpu i wneud hyn, efallai yr hoffech chi ofyn rhai o'r cwestiynau canlynol:
  - Ydych chi erioed wedi gwneud unrhyw brofiad gwaith neu wirfoddoli y gwnaethoch chi ei fwynhau'n fawr iawn?
  - Oes gan unrhyw un rydych chi'n ei adnabod swydd sy'n edrych yn un ddiddorol yn eich barn chi?
  - Oes yna unrhyw yrfaedd yn y byd mawr rydych chi wedi meddwl eu bod yn ddiddorol, neu rydych yn chwifrydig yn eu cylch (ee, swyddi rydych chi'n clywed amdany'n nhw ar y newyddion, swyddi cymeriadau ar raglenni teledu ac ati)?
4. Gofynnwch i'r dysgwyr nodi gyrfaoedd sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Bydden nhw'n gallu cofnodi'r wybodaeth yma ar y daflen waith 'Fy opsiynau'.



# DOD O HYD I HYFFORDDIANT A LLWYBRAU AT Y GYRFAOEDD O'U DEWIS

Helpwch y dysgwyr i ddeall yr hyfforddiant a'r llwybrau a fydd yn eu harwain at yr yrfa o'u dewis.



## AMSER

20 munud



## DEUNYDDIAU

- ✓ Cyfrifiaduron sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd (Bydd mynd ar y rhyngwrwyd yn galluogi'r dysgwyr i wneud rhagor o ymchwil am yr opsiynau maen nhw wedi'u dewis. Mae'n dal yn bosibl gwneud y gweithgaredd os nad oes ganddyn nhw fynediad i'r rhyngwrwyd.)



## TAFLEN WAITH

- ✓ Gweithgaredd: Taflen waith Fy opsiynau



## CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Nodi cyfleoedd hyfforddi/camau posibl sy'n berthnasol i opsiynau gyrfa

## CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Cyfrifiaduron sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd (Bydd mynd ar y rhyngwrwyd yn galluogi'r dysgwyr i wneud rhagor o ymchwil am yr opsiynau maen nhw wedi'u dewis. Mae'n dal yn bosibl gwneud y gweithgaredd os nad oes ganddyn nhw fynediad i'r rhyngwrwyd.)
2. Eglurwch fod gwahanol fathau o gymwysterau a hyfforddiant. Os oes gennych chi fynediad i'r rhyngwrwyd, efallai y byddwch chi am ddechrau'r gweithgaredd yma drwy ddangos i'r bobl ifanc wefannau, ffilmiau neu ffynonellau eraill sy'n rhoi gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael iddyn nhw yn eu hardal leol. Cyfeiriwch y dysgwyr at wefannau ac adnoddau gan eich awdurdod lleol neu gynlluniau eraill yn eich ardal leol. Er enghraifft, i ddysgwyr ym Manceinion, mae'r ffilm yma gan Greater Manchester Higher yn gyflwyniad defnyddiol, ac yn ffordd wych o drafod y gwahanol opsiynau ôl-16 sydd ar gael i'r dysgwyr ddewis o'u plith. Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngwrwyd, edrychwch ar yr wybodaeth ar y dudalen nesaf.

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngwrwyd, edrychwch ar yr wybodaeth ar y ddwy dudalen nesaf. Mae'r blwch cyntaf yn fwy perthnasol i Loegr, ond mae rhai elfennau'n berthnasol i Gymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r ail flwch yn berthnasol i'r Alban.

I gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau y tu allan i Loegr, gallech fynd i'r dolenni isod cyn y sesiwn:

- Yr Alban: <https://www.sqa.org.uk/sqa/93183.html>
- Cymru: <https://gyrfacymru.llyw.cymru/cyrsiau-a-hyfforddiant/cael-gwybodaeth-am-gymwysterau>
- Gogledd Iwerddon: <https://www.nidirect.gov.uk/articles/qualifications-what-different-levels-mean>



## LEFEL T (LLOEGRYNUNG)

Mae T yn sefyll am technegol. Mae cymwysterau Lefel T yn gyrsiau newydd i'w gwneud ar ôl TGAU, a ddaeth ar gael ym mis Medi 2020. Maen nhw ar yr un lefel â Safon Uwch, ond maen nhw'n canolbwyntio llawer mwy ar gael gwybodaeth a sgiliau i weithio mewn diwydiant penodol, fel digidol neu gyllid. Bydd y myfyrwyr yn treulio 80% o'u hamser yn yr ystafell ddsbarth, ac 20% gyda chyflogwr. Mae ysgolion a cholegau yn gosod eu gofynion mynediad eu hunain, felly bydd angen i'r dysgwyr edrych ar wefan yr ysgol neu'r coleg, neu gysylltu â nhw'n uniongyrchol i gael gwybod mwy.

## SAFON UWCH

Mae cymwysterau Safon Uwch yn gymwysterau traddodiadol lle mae dysgwyr yn dewis detholiad o bynciau i'w hastudio'n fanwl. Maen nhw'n academaidd iawn, ac yn cael eu hasesu gydag arholiad ar y diwedd. Maen nhw ar yr un lefel â chymwysterau Lefel T, ond bydd y dysgwyr yn treulio'u holl amser yn dysgu yn yr ystafell ddsbarth. I astudio cymwysterau Safon Uwch, bydd angen i'r dysgwyr fod wedi gwneud yn dda yn eu harholiadau TGAU. Bydd y rhan fwyaf o ysgolion a cholegau yn disgwyl iddyn nhw fod wedi cael graddau 9-4 (A\*-C yn yr hen raddau), gyda gradd 4 o leiaf mewn Mathemateg a Saesneg laith.

## BTEC

Mae BTEC yn sefyll am y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg (Business and Technology Education Council yn Saesneg). Mae BTEC yn cyfuno dysgu ymarferol â chynnwys pwnc a theori. Mae cymwysterau BTEC wedi'u rhannu'n unedau, sy'n rhoi sylw i elfennau penodol o wybodaeth a sgiliau ar gyfer sector neu ddiwydiant penodol, a dealltwriaeth o'r sector neu'r diwydiant hwnnw. Mae cymwysterau BTEC yn hyblyg, ac yn gallu cael eu gwneud ochr yn ochr â chymwysterau (neu yn lle) TGAU a Safon Uwch mewn ysgolion a cholegau. Mae'r gofynion mynediad yn amrywio, gan ddibynnu ar yr ysgol neu'r coleg a'r cwrs BTEC penodol sydd o ddiddordeb i'r dysgwyr.

## PRENTISIAETH (YCHYDIG YN WAHANOL YNG NGHYMRY A GOGLEDD IWERDDON)


Mae prentisiaethau'n cynnwys swydd â thâl gyda chyflogwr, yn ogystal â hyfforddiant strwythuredig gyda choleg neu ddarparwr hyfforddiant. Bydd prentisiaid yn treulio 80% o'r amser yn gweithio, ac 20% yn astudio. Mae'n bosibl gwneud prentisiaethau unrhyw bryd mewn bywyd, ac mae lefelau prentisiaethau'n amrywio, gan ddibynnu ar ble mae pobl wedi cyrraedd yn eu gyrfa. Gan ddibynnu ar lefel y brentisiaeth, bydd y gofynion mynediad yn cynnwys o leiaf bum gradd TGAU 9-4, gan gynnwys pynciau Saesneg a mathemateg, a chymwysterau Lefel 3, gan gynnwys cymwysterau Safon Uwch, NVQ, neu BTEC.

### 3. Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau a gofyn iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol:

- Ydyn nhw wedi clywed am yr opsiynau hyn o'r blaen?
- Oedd unrhyw un o'r opsiynau hyn yn swnio'n addas iawn iddyn nhw?
- Ydyn nhw'n adnabod rhywun sydd wedi cyflawni unrhyw un o'r gwahanol gymwysterau neu hyfforddiant? Os felly, beth maen nhw wedi'i glywed gan y person hwnnw – sut daeth o hyd i'r cymhwyster neu'r hyfforddiant, a yw wedi sôn am unrhyw beth yr oedd wedi'i fwynhau'n fawr, neu'r heriau y daeth ar eu traws?
- Fydden nhw'n hoffi astudio'n llawn amser? Neu a fyddai'n well ganddyn nhw weithio ac astudio ar yr un pryd?



4. Trafodwch fel grŵp. Ydy'r dysgwyr yn gwybod mwy am y gwahanol lwybrau y bydden nhw'n gallu eu dilyn? Oes ganddyn nhw ragor o gwestiynau am bob llwybr? Os oes ganddyn nhw fynediad i'r rhyngwrwyd, gallwch eu hannog i ymweld â gwefannau lleol lle bydden nhw'n gallu cael rhagor o gyngor neu gael eu mentora.



# CAEL CYNGOR AC YMCHWILIO I GYFLEOEDD

Bydd y dysgwyr yn defnyddio adnoddau defnyddiol i'w helpu i chwilio am swyddi ac arweiniad ar yrfaeodd.



## AMSER

20 munud



## DEUNYDDIAU

- ✓ Cyfrifiaduron sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd



## CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Rhoi enghreifftiau o ffynonellau gwybodaeth am opsiynau gyrfa
- ✓ Y sgiliau a'r nodweddion sydd eu hangen ar gyfer opsiwn gyrfa

# CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Ni fydd llawer o ddysgwyr wedi cael profiad o chwilio am swyddi neu arweiniad ar yrfaeodd. Fel grŵp, trafodwch y gwahanol lefydd y gallai'r dysgwyr droi atyn nhw er mwyn cael cyngor ar yrfaeodd, ac i ddod o hyd i swyddi. Efallai y byddan nhw'n meddwl am ddefnyddio eu rhwydwaith lleol, fel rhieni, ffrindiau'r teulu, a busnesau lleol. Mae'r rhain yn llefydd gwych i ddechrau, ond esboniwch ei bod hi'n bwysig gwybod ble arall i chwilio – yn po fwyaf o lefydd maen nhw'n edrych, y mwyaf tebygol ydyn nhw o ddod o hyd i gyfleoedd sy'n addas iddyn nhw.
2. Mewn grwpiau, neu yn unigol, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r rhyngwrwyd i chwilio am wefannau sy'n cynnig arweiniad ar yrfaeodd neu swyddi. Gofynnwch iddyn nhw beth maen nhw wedi dod o hyd iddo, a rhannwch y gwefannau isod os nad ydyn nhw wedi dod ar eu traws.
  - [nationalcareersservice.direct.gov.uk](https://nationalcareersservice.direct.gov.uk)
  - [www.apprenticeships.gov.uk](https://www.apprenticeships.gov.uk)
  - [www.youthemployment.org.uk/careers-hub/](https://www.youthemployment.org.uk/careers-hub/)
  - [www.princes-trust.org.uk/help-for-young-people/toolsresources/finding-job](https://www.princes-trust.org.uk/help-for-young-people/toolsresources/finding-job)
3. Yn ogystal â gwefannau cenedlaethol, anogwch y dysgwyr i edrych ar wefannau lleol, gan bwysleisio pwysigrwydd ystyried sectorau lle mae llawer o dwf ac felly mwy o gyfleoedd i ddod o hyd i waith yn eu hardal.
4. Anogwch y dysgwyr i ymchwilio'n ddyfnach i rai gyrfaeodd a fyddai wir at eu dant, gan feddwl am ddefnyddio LMI a gwybodaeth arall am y sector yn lleol i greu proffil o'r swydd y bydden nhw'n hoffi ei gwneud, ac ystyried pam mae'r swydd yn iawn iddyn nhw. Dylent nodi gwybodaeth allweddol a myfyrdodau personol fel:
  - Y sgiliau, y nodweddion personol a'r rhinweddau eraill a fyddai'n eu gwneud yn ymgeisydd delfrydol – ydy'r pethau hyn yn teimlo'n berthnasol iddyn nhw o ran eu cryfderau, eu diddordebau ac ati?
  - Y sgiliau, y nodweddion personol a'r rhinweddau eraill a fyddai'n eu gwneud yn ymgeisydd delfrydol – ydy'r pethau hyn yn teimlo'n berthnasol iddyn nhw o ran eu cryfderau, eu diddordebau ac ati?



Prince's Trust

START  
SOMETHING



- Y gwahanol lwybrau posibl at yr yrfa yma (efallai y byddwch am gyfeirio'n ôl at yr wybodaeth a gasglwyd am y gwahanol gymwysterau yn y cam blaenorol) – pa rai o'r rhain sydd fwyaf addas i'r dysgwyr, faint o amser y bydd yn ei gymryd os byddan nhw'n dewis y llwybr yma i ddechrau gweithio, fyddan nhw'n gallu ennill cyflog a dysgu ar yr un pryd? Er enghraifft, un o fanteision mawr prentisiaeth yw y bydd y dysgwyr, yn y rhan fwyaf o rolau, yn gallu ennill cyflog yn syth.
- Amgylchedd gwaith a diwylliant y gweithle (ee, y math o dimau y bydd y dysgwyr yn gweithio gyda nhw, ydy'r pwyslais ar weithio ar eu pen eu hunain ynteu ar weithio fel tîm, yr oriau y bydd disgwyl iddyn nhw eu gweithio) – ydy hyn yn teimlo fel y math o le y bydden nhw'n hoffi gweithio a'r ffordd y bydden nhw'n hoffi gweithio? Efallai y byddwch hyd yn oed am iddyn nhw edrych ymhellach ar eu math o bersonoliaeth, gydag offer asesu a ddefnyddir yn eang, fel prawf Myers Briggs.
- Cyfrifoldebau a gofynion y swydd – pa heriau y bydden nhw'n gallu dod ar eu traws, beth fydd yr heriau personol mwyaf iddyn nhw?
- Ystodau cyflog a chyfleoedd pellach

Mae'r proffil enghreifftiol isod (sy'n enghraifft o Fanceinion Fwyaf) wedi cael ei greu drwy ddefnyddio tudalen cynllun gyrfu GMACS, ac mae'n seiliedig ar rôl a sector twf allweddol. Gallech ddod o hyd i wybodaeth debyg am rôl/sector twf yn eich ardal leol fel enghraifft i ennyn ymateb os yw'r dysgwyr yn cael trafferth:

## SECTOR: DIGIDOL A CHREADIGOL

### PAM GWNEUD CAIS AM RÔL YN Y SECTOR YMA:

Manceinion Fwyaf sydd â'r sectorau digidol a chreadigol mwyaf y tu hwnt i dde-ddwyrain Lloegr. Mae potensial yno i greu clystyrau sydd o arwyddocâd rhyngwladol ym maes darlledu, creu cynnwys, y cyfryngau a seiberddiogelwch, ochr yn ochr ag is-sectorau newydd fel e-fasnach lle mae gan y ddinas-ranbarth y potensial i arwain diwydiannau'r dyfodol. Y disgwyl yw y bydd nifer y swyddi'n parhau i gynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda dros 18,000 yn fwy o swyddi ym Manceinion Fwyaf.

### RÔL A DISGRIFIAD:

Marchnatwr digidol – hyrwyddo brandiau, cynnyrch a gwasanaethau drwy gyfryngau cymdeithasol, gwefannau ac apiau.

### YSTOD CYFLOG A CHYFLEOEDD PELLACH:

£20,000 – 50,000. Byddai modd mynd ymlaen i arbenigo mewn marchnata ar ffurf fideo neu ddyfeisiau symudol, gan fynd yn uwch swyddog marchnata digidol neu'n bennaeth marchnata ar-lein. Byddai hefyd yn bosibl gweithio fel ymgynghorydd marchnata digidol llawrydd neu symud i feysydd fel hysbysebu, gwerthu, e-fasnach neu gysylltiadau cyhoeddus.

### DIWYLLIANT AC AMGYLCHEDD GWAITH:

Byddan nhw'n gweithio mewn swyddfa ac yn aml yn annibynnol, drwy waith tîm a chydweithio rheolaidd – ee, sesiynau syniadau, siarad â chleientiaid a chyflenwyr, cydweithio â chydweithwyr ar brosiectau ac ati. Byddan nhw'n gweithio tua 37 awr yr wythnos.

### LLWYBRAU POSIBL:

Uwch Brentisiaeth Gweinyddwr Busnes – Tîm Gwasanaethau Tir, Manceinion – cyflog o £15,000

5. Boed y dysgwyr yn chwilio am swyddi neu am gyngor ar yrfaeodd, gofynnwch iddyn nhw nodi unrhyw beth dydyn nhw ddim yn ei ddeall, er enghraifft iaith, ymadroddion neu ofynion. Dewiswch ddau neu dri o'r dysgwyr i rannu'r pethau hynny, a'u trafod yn y dosbarth.



# MANTEISION AC ANFANTEISION Y GYRFAOEDD O'U DEWIS

Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall bod manteision ac anfanteision i bob gyrfa. Gofynnir iddyn nhw feddwl am fanteision ac anfanteision posibl y gyrfaeodd o'u dewis.



## AMSER

20 munud



## DEUNYDDIAU

✓ Papur a beiros



## TAFLEN WAITH

✓ Gweithgaredd: Taflen waith Fy opsiynaus



## CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

✓ Manteision ac anfanteision opsiwn gyrfa

# CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Ar ôl i'r dysgwyr greu rhestr o yrfaeodd a allai fod o ddiddordeb iddyn nhw, esboniwch y bydd gan bob swydd ei manteision a'i hanfanteision. Gofynnwch i'r grŵp gyfrannu syniadau ynghylch pam ei bod yn bwysig gwybod beth yw'r manteision a'r anfanteision cyn gwneud cais am swyddi neu ddilyn gyrfa benodol.
2. Gofynnwch i'r dysgwyr gofnodi eu hatebion. Gallai hyn fod yn gyfle i edrych ar bwysigrwydd profiad gwaith er mwyn gweld beth yw manteision ac anfanteision gwahanol rolau, a phenderfynu a yw gyrfa benodol yn addas.
3. Gofynnwch i'r grŵp ddisgrifio rhai o fanteision ac anfanteision yr yrfa o'u dewis. Gallai'r dysgwyr wneud hyn ar eu pen eu hunain, neu gallech eu rhannu'n grwpiau bach o bobl sydd â diddordeb mewn meysydd tebyg, ar yr amod bod pob person ifanc yn cyflawni ei waith ei hun. Gall y dysgwyr gofnodi eu hatebion ar y daflen waith 'Fy opsiynau'.
4. Gofynnwch i'r dysgwyr gysylltu â rhywun sy'n gwneud y swydd y mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddi, drwy'r ysgol/eich lleoliad, drwy eu rhwydweithiau personol eu hunain neu drwy gyflogwyr lleol (efallai y bydd angen i chi eu helpu i gysylltu â sefydliadau allanol). Gallai'r dysgwyr gyfweld â rhai o'r bobl hyn i gael eu barn am fanteision ac anfanteision yr yrfa. Dywedwch wrthyn nhw am ddweud gyda phwy maen nhw'n bwriadu cysylltu cyn mynd ati i wneud hynny, am resymau diogelu.



# STRAEON AM YRFAOEDD >

Yn y gweithgaredd yma, bydd y dysgwyr yn edrych ar straeon am yrfaedd ac yn trafod y llwybrau y mae'r prif gymeriadau wedi'u dewis.



**AMSER**

20 munud

## CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Dywedwch wrth y grŵp eich bod yn mynd i siarad am Lucy, sy'n intern yn swyddfa'r wasg ar hyn o bryd, ac am Andrew, sy'n gwneud prentisiaeth mewn marchnata digidol.
2. Gofynnwch i'r dosbarth feddwl, naill ai'n unigol neu mewn parau, am sut mae Lucy ac Andrew wedi cyrraedd ble maen nhw'n awr. Pa ddiddordebau cychwynnol oedd ganddyn nhw o bosibl cyn penderfynu mynd i fyd newyddiaduraeth neu farchnata digidol? Pa gymwysterau fyddai eu hangen aryn nhw o bosibl? Pa fath o bethau fydden nhw'n gallu eu gwneud i'w helpu i gael eu rôl ddelfrydol? Pa gamau fydden nhw'n gallu eu cymryd i gyrraedd y pwynt hwnnw?
3. Ar ôl i nifer o'r dysgwyr rannu'r daith maen nhw'n meddwl mae Lucy ac Andrew wedi'i dilyn, rhannwch y stori isod â nhw.

Roedd Lucy wastad wedi mwynhau ysgrifennu creadigol yn yr ysgol, ac o blith ei grŵp o ffrindiau, Lucy oedd bob amser yn mwynhau adrodd straeon. Ond, ar ôl protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys yn 2020, penderfynodd ddilyn nifer o gyfrifon newyddion ar Instagram, er mwyn cael gwybod y newyddion diweddaraf a beth arall oedd yn digwydd o amgylch y byd. Gydag amser, sylweddolodd ei bod yn well ganddi ddarllen y straeon ffeithiol na darllen ac ysgrifennu straeon ffuglennol yn ei dosbarth Saesneg. Clywodd am gymwysterau BTEC, a phenderfynodd wneud BTEC mewn newyddiaduraeth ar ôl ei harholiadau TGAU. Yna gwnaeth gais am interniaeth dros yr haf yn swyddfa'r wasg, lle dysgodd am swydd yr is-olygydd. Yn y cyfamser, dechreuodd ei blog ei hun hefyd, gydag erthyglau newyddion yr oedd wedi'u hysgrifennu am yr hyn oedd yn digwydd yn ei hardal leol. Erbyn hyn, mae hi'n gobeithio cyrraedd y lefel nesaf a chael swydd is ar gyfer gwefan newyddion.

Mae Andrew wastad wedi bod wrth ei fodd â'r cyfryngau a hysbysebion. Mae'n mwynhau gweld yr hyn mae brandiau creadigol yn ei wneud i hyrwyddo eu cynnyrch a'u gwasanaethau.



Prince's Trust

**START  
SOMETHING**

Mae hefyd yn hoff o dechnoleg, ac mae bob amser yn ymwybodol o'r duedd ddiweddaraf yn y sector digidol. Ar ôl ei arholiadau TGAU, dewisodd y llwybr prentisiaeth yn hytrach na Safon Uwch oherwydd ei fod eisiau dechrau dysgu mewn amgylchedd mwy ymarferol a chael profiad wrth astudio. Mae wrthi'n gwneud ei brentisiaeth mewn marchnata digidol, ac yn dysgu sut mae hyrwyddo brandiau, cynnyrch a gwasanaethau drwy gyfryngau cymdeithasol, gwefannau ac apiau.

4. Gofynnwch i'r dosbarth a oedd unrhyw beth wedi'u synnu? A oedd unrhyw beth arbennig o ddefnyddiol yn stori Lucy neu Andrew?



# DOD O HYD I GYFLEOEDD >

Bydd y gweithgaredd yma'n annog y dysgwyr i chwilio am swyddi gwag neu gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol iddyn nhw. Byddan nhw'n cael rhestr o wefannau defnyddiol y gallan nhw eu defnyddio er mwyn dechrau arni.



## AMSER

20 munud



## DEUNYDDIAU

- ✓ Cyfrifiaduron sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd



## CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Nodi swyddi gwag, cyfleoedd hyfforddi, camau posibl ar gyfer opsiwn gyrfa
- ✓ Rhoi enghreifftiau o ffynonellau gwybodaeth am opsiynau gyrfa

# CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Dylai pob person ifanc fod wedi dewis opsiwn gyrfa neu wedi creu rhestr o rai posibl. Esboniwch eu bod yn mynd i ddechrau chwilio am rôl. Oes gan unrhyw un o'r dysgwyr brofiad (eu hunain neu rywun arall yn eu teulu) o wneud cais am swyddi – ydyn nhw'n gwybod sut mae cychwyn mynd ati i wneud hynny?
2. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio ar eu pen eu hunain neu mewn parau i ddod o hyd i swyddi gwag neu gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae modd iddyn nhw ddefnyddio eu sgiliau digidol i chwilio am swyddi gwag ar-lein ac edrych ar y broses gwneud cais, neu i chwilio am gyrsiau hyfforddi a fyddai o help iddyn nhw. I'r rheini sydd angen rhywfaint o arweiniad ynghylch lle mae cychwyn, awgrymwch eu bod yn edrych yn:
  - [nationalcareers.service.gov.uk/find-a-course/search](https://nationalcareers.service.gov.uk/find-a-course/search)
  - [nationalcareersservice.direct.gov.uk/get-a-job/advertised-jobvacancies](https://nationalcareersservice.direct.gov.uk/get-a-job/advertised-jobvacancies) i weld rhestr o wefannau, papurau newydd a ffynonellau posibl eraill



Prince's Trust

START  
SOMETHING

# FY NGHYNLLUN GWEITHREDU

Drwy'r gweithgaredd yma, bydd y dysgwyr yn creu eu cynllun gweithredu eu hunain. Bydd yn eu helpu i ystyried y llwybrau at yr yrfa o'u dewis, ac i nodi'r camau y mae angen iddyn nhw eu cymryd er mwyn gwneud cais am swyddi.



## AMSER

20 munud



## CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Nodi swyddi gwag, cyfleoedd hyfforddi, camau posibl ar gyfer opsiwn gyrfa

# CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Esboniwch i'r dysgwyr y byddan nhw'n creu eu cynllun gweithredu er mwyn edrych ar wahanol lwybrau at yr yrfa o'u dewis, ac yn nodi'r camau y mae angen iddyn nhw eu cymryd i wneud cais am swydd.

Erbyn hyn, bydd y dysgwyr wedi casglu llawer iawn o wybodaeth a myfyrodau personol am eu dyheadau swydd a'r daith y byddan nhw'n ei dilyn i gyflawni eu nodau proffesiynol. Dylid defnyddio'r holl waith yma fel sylfaen gref i greu eu cynllun gweithredu ac i strwythuro eu syniadau.

2. Gofynnwch i'r dysgwyr ddechrau chwilio am swydd ar wefannau (fel y nodir uchod), a gofyn iddyn nhw ddewis un fel enghraifft o rôl y bydden nhw'n hoffi gwneud cais amdani.
3. Gan ystyried yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu'n barod, gofynnwch i'r dysgwyr nodi'n glir y camau y mae angen iddyn nhw eu cymryd er mwyn dechrau ar yr yrfa maen nhw eisiau ei gwneud yn y dyfodol. Er enghraifft, ymchwilio i'r rôl, meddwl am y profiad gwaith y bydd ei angen arnyn nhw o bosibl, neu gyfleoedd gwirfoddoli y bydd angen iddyn nhw eu hystyried, edrych ar hyfforddiant, creu datganiad personol, CV, cysylltu â rhywun sy'n ymwneud â'r swydd a fyddai'n gallu rhoi cyngor iddyn nhw.

Mae'r sesiwn 'Gwneud Cais a Pharatoi ar gyfer Profiad Gwaith' yn sesiwn ddilynol neu'n sesiwn arall wych ar gyfer dysgwyr sydd ar gam cynharach yn eu gyrfa, ac sydd am ystyried cysyniadau a chyfleoedd sy'n ymwneud â phrofiad gwaith.

4. Yna gofynnwch i ddau neu dri o'r dysgwyr rannu eu cynllun gweithredu â'r grŵp.



Prince's Trust

START  
SOMETHING